Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Llangelynnin
# Henryd
# Conwy
# LL32 8YB

## Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Llangelynnin

Ysgol dan Reolaeth Wirfoddol yr Eglwys Yng Nghymru yw Ysgol Llangelynnin, sydd wedi ei lleoli ym mhentref Henryd ar gyrion tref Conwy.  Cymraeg yw prif gyfrwng a bywyd yr ysgol.  Mae 87 disgybl rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr, gan gynnwys saith oed meithrin.  Fe'i rhennir yn bedwar dosbarth oedran cymysg.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 4% o ddisgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.  Mae hyn yn sylweddol is na'r ganran genedlaethol, sy'n 19%.  Mae tua hanner y disgyblion yn siarad Cymraeg gartref.  Ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig.  Mae'r ysgol wedi adnabod 21% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd yn cyfateb i'r ganran genedlaethol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym mis Medi 2016.  Fe arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Ionawr 2012.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel uchel o barch.

Mae safonau addysgu effeithiol yn amlwg yn y safonau da a gyflawnir gan y disgyblion. Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu bwrpasol.

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn llwyddo i greu ethos cynhwysol, clòs sydd yn arwain at hinsawdd o gydweithio llwyddiannus ymysg staff a holl gymuned yr ysgol. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol ac mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol a llwyddiannus.

| Maes arolygu | Barn |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau gwell cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella presenoldeb

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol y rhan fwyaf o ddisgyblion o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd cadarn ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6. Maent yn dwyn i gof ddysgu blaenorol yn dda ac yn defnyddio a chymhwyso'u medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn llwyddiannus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Mae medrau llafar rhan fwyaf y disgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n dda. Maent yn gwrando'n astud ac yn defnyddio ystod gynyddol o eirfa briodol wrth sgwrsio gyda'i gilydd ac oedolion. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio'n hyderus am eu gwaith, gan ddefnyddio iaith a geirfa amrywiol a mynegi barn yn synhwyrol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn ateb cwestiynau'n ddeallus a gwybodus, er enghraifft wrth drafod hunangofiannau. Maent yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd ac yn newid yn rhwydd o un iaith i'r llall wrth drafod eu gwaith.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn gwneud cynnydd da yn datblygu eu medrau darllen. Maent yn mwynhau darllen ar goedd ac yn gwneud hyn yn gynyddol hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod, mae llawer yn darllen gyda lefel dda o gywirdeb, rhuglder ac ystyr. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen yn rhugl ac ystyrlon yn y Gymraeg a Saesneg, gyda mynegiant effeithiol. Maent yn datblygu eu medrau'n dda wrth gywain gwybodaeth yn eu gwaith ymchwiliol, er enghraifft wrth ddefnyddio ffynonellau gwahanol yn eu hastudiaeth o'r Ail Ryfel Byd. Mae uwch fedrau darllen rhan fwyaf y disgyblion hŷn yn datblygu'n llwyddiannus; maent yn rhagfynegi, egluro, cwestiynu a chrynhoi gwybodaeth yn effeithiol iawn.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn bwrpasol, gan amrywio brawddegau yn fedrus erbyn Blwyddyn 2. Mae llawer yn ysgrifennu storïau estynedig a dychmygol yn annibynnol. Er enghraifft, maent yn defnyddio ansoddeiriau a geirfa ddiddorol yn hyderus i gyfoethogi'u storiau am barti arbennig a'r gwningen drist. Mae llawer yng nghyfnod allweddol 2 yn ysgrifennu'n ddeallus at wahanol ddibenion yn y Gymraeg a Saesneg, gan ddewis geirfa amrywiol ac yn sillafu, atalnodi a pharagraffu'n gywir. Erbyn diwedd y cyfnod, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n fedrus mewn ffurfiau effeithiol ac amrywiol, er enghraifft Ymson Jodie, cofiannau diddorol am Mo Farah, ac adroddiadau papur newydd am y 'Royal Charter'. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg yn ddigon cyson ar draws y cwricwlwm. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer o'r disgyblion yn hynod drefnus a thaclus.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau rhifedd yn effeithiol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf â dealltwriaeth dda o batrymau rhif a gwerth lle. Maent yn defnyddio unedau safonol i fesur yn gywir ac yn defnyddio offer i bwyso parseli cyn eu postio. Maent yn cymhwyso eu medrau'n fedrus ac yn datblygu strategaethau

priodol wrth ymchwilio a datrys problemau yn ymwneud â mesur cynhwysedd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso eu medrau'n fedrus ac yn datblygu strategaethau priodol, er enghraifft wrth gynllunio ras redeg a chyfrifo amseroedd rhedwyr buddugol a chyflymder cyfartalog. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio ystod dda o strategaethau cyfrifo pen i ddatrys problemau rhif sy'n mynd yn fwyfwy anodd. Mae llawer â dealltwriaeth gadarn o'r berthynas rhwng unedau mesur safonol, sef metrau a milltiroedd a mililitrau a litrau. Mae'r rhan fwyaf yn dadansoddi a dehongli graffiau a siartiau yn fedrus.

Mae medrau TGCh rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Yn y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn creu lluniau electronig da, ac yn cyflwyno data drwy graffiau a siartiau yn bwrpasol. Maent yn cyflwyno cyfres o gyfarwyddiadau i reoli tegan symudol yn llwyddiannus. Defnyddiant lechi electronig yn hyderus i ymarfer eu medrau llythrennedd a rhifedd, a chadw cofnod o'u gwaith. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r rhyngrwyd yn llwyddiannus i chwilio am wybodaeth, er enghraifft am drychineb y 'Royal Charter' a Gemau'r Gymanwlad. Maent yn paratoi cyflwyniadau amlgyfrwng diddorol i atgyfnerthu eu gwaith am Yr Wyddfa a'r Tuduriaid ac yn animeiddio araith Martin Luther King yn effeithiol..

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae gan ran fwyaf y disgyblion agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n dda am gyfnodau hir. Maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn dangos diddordeb amlwg yn eu gweithgareddau. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol iawn â'u cyfoedion ac yn dangos parch at farn eraill. Mae ganddynt fedrau cymdeithasol a bywyd effeithiol iawn.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda y tu mewn i'r dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Maent yn ofalgar iawn o'i gilydd ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel uchel o barch. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at natur gynhwysol ac ethos gofalgar yr ysgol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan y rhan fwyaf ddealltwriaeth gadarn o sut i wella eu gwaith ac yn cyfeirio'n rheolaidd at eu targedau unigol wrth iddynt weithio. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at eu llwyddiant yn eu tasgau.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn deall sut i gadw'n iach, ac maent yn mynegi hyn yn glir wrth drafod eu harferion bwyta ac yfed. Trwy gymryd rhan mewn rhaglen gynhwysfawr o redeg yn rheolaidd o amgylch yr ysgol, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cadw'n heini. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd rhag cam-drin corfforol a geiriol yn yr ysgol. Datblyga holl ddisgyblion eu dealltwriaeth o bwysigrwydd gwneud penderfyniadau cywir a doeth o ran diogelwch y we a chamddefnyddio sylweddau.

Mae llais y disgybl yn bwysig ac mae llawer yn manteisio'n llawn ar y cyfle i gynnig syniadau am fywyd a gwaith yr ysgol. Mae trawstoriad o aelodau wedi eu hethol i wahanol grwpiau, fel y grŵp eco, cyngor ysgol a llysgenhadon iaith, chwaraeon a chymhwysedd digidol. Mae'r llysgenhadon iaith, er enghraifft, yn annog siarad Cymraeg yn ystod amseroedd egwyl drwy ddosbarthu tocynnau iaith ar gyfer pwyntiau 'Dojo'. Maent yn cyflawni eu gwaith yn frwdfrydig a chydwybodol.

Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn y cyfle i gefnogi elusennau amrywiol ac fe gasglwyd swm sylweddol o arian i hosbis leol, sef Tŷ Gobaith, ac i Macmillan. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hymwybyddiaeth o anghenion eraill o fewn eu cymuned a'r byd ehangach.

Er ymdrechion yr ysgol, mae cyfraddau presenoldeb disgyblion wedi bod yn gyson is nag ysgolion tebyg.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r safonau addysgu effeithiol yn amlwg yn y safonau da a gyflawnir gan y disgyblion. Mae'r drefn o gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n ymestyn disgyblion o bob gallu yn nodwedd gref. Mae'r gwaith yn seiliedig ar themâu a phrofiadau dysgu diddorol a dychmygus. Nodwedd lwyddiannus yng nghyfnod allweddol 2 yw'r rhan sydd gan rieni, gyda'u plant, yn cynnig awgrymiadau a syniadau ar ddechrau pob thema am yr hyn yr hoffent ei astudio. Mae hyn yn ennyn diddordeb a chwilfrydedd disgyblion tuag at ddysgu yn grefftus ac yn cryfhau eu hymrwymiad i'w gwaith.

Mae'r athrawon yn cynllunio cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddefnyddio'u medrau llythrennedd, rhifedd, Cymraeg a TGCh mewn amrywiaeth o feysydd cwricwlaidd. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd iddynt ddatblygu eu medrau ysgrifennu Saesneg ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2.

Mae egwyddorion y cyfnod sylfaen wedi eu sefydlu'n gadarn. Mae mynediad di-dor i'r ardal allanol yn sicrhau bod llawer o'r disgyblion yn elwa o weithgareddau ysgogol y tu mewn a thu allan. Fe ddarperir gweithgareddau ffocws a pharhaus effeithiol, sy'n cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymchwilio, chwarae rôl, adeiladu ac ymarfer eu medrau corfforol. Mae hyn yn meithrin agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn eu hannog i ddyfalbarhau am gyfnodau estynedig.

Mae oedolion yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson yn ystod gwersi ac, o ganlyniad, erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae gan lawer o ddisgyblion fedrau trawsieithu cadarn ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus. Mae darpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau cyfoethog a diddorol i ddatblygu dealltwriaeth o'u hardal a diwylliant Cymru yn effeithiol. Enghraifft dda o hyn yw'r ymweliadau i ganolfannau hanesyddol fel castell Conwy a chyfleoedd rheolaidd i gystadlu mewn eisteddfodau.

Mae perthynas waith effeithiol yn bodoli rhwng oedolion a disgyblion, sy'n meithrin awyrgylch ddysgu bwrpasol. Mae cyflwyniadau'r gwersi'n fywiog ac mae gweithgareddau'n llifo'n dda. Mae athrawon yn esbonio syniadau newydd mewn dull ystyrlon a brwdfrydig ac yn ymestyn y dysgu drwy brofiadau ymarferol. Mae'r athrawon yn holi'n dreiddgar er mwyn ehangu dealltwriaeth y disgyblion ac yn eu hannog i ddefnyddio eu medrau meddwl drwy gydol y wers. Mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol.

Gwna athrawon ddefnydd medrus o ystod o strategaethau asesu. Maent yn cynnig adborth llafar defnyddiol yn ystod gwersi. Ceir enghreifftiau da o adborth ysgrifenedig pwrpasol ac mae sylwadau'r athrawon yn ymateb i dargedau unigol ac yn aml yn cyfeirio at wella medrau'r disgyblion. Fe anogir y disgyblion i fanteisio ar y cyfle i wella eu gwaith trwy ymateb i sylwadau'r athrawon. Mae cyfleoedd addas i ddisgyblion werthuso eu gwaith a gwaith disgyblion eraill. Mae hyn yn sicrhau bod

gan ddisgyblion, erbyn diwedd eu cyfnod yn yr ysgol, ddealltwriaeth gadarn o ba mor dda maent yn ei wneud a beth sydd angen iddynt ei wneud i wella eu gwaith.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae ansawdd da gofal, cymorth ac arweiniad staff yn cael effaith gadarnhaol iawn ar safonau a lles disgyblion. Mae medrau moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus iawn. Mae ffocws cryf yr holl staff ar hyrwyddo disgwyliadau a gwerthoedd uchel yn annog disgyblion i gymryd cyfrifoldeb aeddfed dros eu gweithredoedd. Fe drefnir cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion leisio'u barn trwy gyfrwng amrywiol gynghorau. Mae'r ysgol yn ystyried eu barn o ddifri, ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu hyder ac yn meithrin ynddynt synnwyr o falchder a chyfrifoldeb dros eraill.

Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau ar amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau amlwg o ddiwylliant yr ysgol. Mae pwyslais ar hybu gwerthoedd cytûn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion.

Mae'r staff yn adnabod y disgyblion a'u teuluoedd yn dda ac mae ganddynt berthynas gadarn ac effeithiol gyda nhw. Mae'r staff yn rhannu gwybodaeth am weithgareddau'r ysgol gyda'r rhieni yn rheolaidd iawn ac mae hyn yn eu galluogi i gefnogi eu plant yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus i olrhain cynnydd a monitro lles ei disgyblion ac mae'r staff yn eu diweddaru'n gyson. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn effeithiol. Gwna'r ysgol ddefnydd da o wybodaeth asesiadau ffurfiol ac asesiadau athrawon i adnabod anghenion y disgyblion yn gynnar, ac mae staff yn darparu rhaglenni ymyrraeth llwyddiannus ar eu cyfer.

Mae ymweliadau addysgol yn cynnig profiadau gwerthfawr i gyfoethogi profiadau dysgu y disgyblion ac fe roddir cyfleoedd da iddynt berfformio mewn cyflwyniadau a chyngherddau, ac i gystadlu mewn eisteddfodau a chymryd rhan mewn prosiectau lleol.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, ac mae ei threfniadau ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth yn creu ethos cynhwysol, clòs sydd yn arwain at hinsawdd o gydweithio llwyddiannus ymysg staff a holl gymuned yr ysgol. Mae'n cynnig cyfeiriad clir, yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer pob maes dysgu ac addysgu, ac yn sicrhau ymrwymiad y staff i gynnal a chodi safonau. Ar draws yr ysgol, mae ymdeimlad o ddiben ac ymroddiad ymhlith pawb i'r gwerthoedd a'r uchelgeisiau hyn. Mae ganddo berthynas gadarn â rhieni drwy hybu diwylliant drws agored a chydweithredol sy'n llwyddo i sicrhau cefnogaeth fuddiol.

Mae'r staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n dda ac maent yn eu datblygu'n effeithiol a chydwybodol. Mae'r athrawon brwdfrydig yn dangos ymrwymiad cryf i hyrwyddo gwelliannau parhaus a chynaliadwy trwy ddod at ei gilydd i drafod yn

rheolaidd a chynllunio ar y cyd. Mae hyn yn helpu sicrhau dilyniant a pharhad ar gyfer datblygu medrau disgyblion, ac yn creu profiadau eang, ysgogol ar gyfer yr holl ddisgyblion. Mae hefyd yn gymorth defnyddiol i leihau baich gwaith athrawon.

Defnyddir cymorthyddion dysgu yn effeithiol ar draws yr ysgol i gefnogi disgyblion unigol ac i weithredu rhaglenni ymyrraeth perthnasol. Mae'r gefnogaeth hon yn cyfrannu'n llwyddiannus at wella medrau llythrennedd, rhifedd a lles disgyblion. Mae'r cymorthyddion yn cymryd mantais lawn o gyfleoedd hyfforddiant i ddatblygu'n broffesiynol, er enghraifft trwy ddatblygu eu cymhwysedd digidol er mwyn hybu medrau TGCh disgyblion yn fwy effeithiol.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau rheoli perfformiad cadarn ar gyfer athrawon. Mae'r gweithdrefnau hyn yn hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff yn llwyddiannus ,sy'n cael effaith gadarnhaol ar unigolion ac ar waith y dosbarth. Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned ddysgu gref trwy gydweithio'n effeithiol ag ysgolion eraill ar brosiectau arbennig fel paratoi arweiniad i ddatblygu medrau meddwl y disgyblion. Mae'r adnodd gwerthfawr hwn yn cynorthwyo disgyblion i wybod sut i wella'u gwaith a symud ymlaen i'r cam nesaf.

Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth gadarn o berfformiad yr ysgol. Mae ganddynt gyfrifoldeb am agweddau penodol o'r cwricwlwm ac maent yn cynnal teithiau dysgu buddiol sy'n canolbwyntio'n dda ar waith y disgyblion. Maent yn paratoi adroddiadau manwl yn dilyn arsylwadau sy'n cael eu trafod gyda'r pennaeth a'r corff llawn. Mae hyn yn eu galluogi i herio a dwyn yr ysgol i gyfrif am ei pherfformiad yn effeithiol a llwyddiannus.

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn effeithiol ac wedi eu seilio'n gadarn ar dystiolaeth eang, fel craffu ar waith, arsylwi gwersi a holi barn disgyblion a rhieni. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn rhoi darlun perthnasol o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen sylw pellach. Mae blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol wedi'u cysylltu'n briodol â deilliannau'r broses hunanarfarnu ac yn canolbwyntio'n dda ar wella'r ddarpariaeth a chodi safonau.

Mae arweinwyr yn rheoli ac yn monitro gwariant a chyllid yn ddarbodus i sicrhau'r defnydd gorau ohono i gynnal a gwella safonau. Mae cyllideb ar gyfer gweithredu blaenoriaethau gwella'r ysgol wedi ei chlustnodi'n glir, ac yn sicrhau cyflenwad da o adnoddau sy'n ymateb i anghenion disgyblion. Mae'r ysgol yn elwa o gefnogaeth gyson cyfeillion yr ysgol, sy'n cyfrannu'n hael at brosiectau a phrynu cyfarpar, er enghraifft llyfrau darllen ac adnoddau safonol ar gyfer ardal allanol y cyfnod sylfaen.

Mae'r ysgol yn defnyddio ystod o grantiau'n fwriadus, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion, i godi safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion penodol. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

© Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 27/06/2018